------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Medi 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

## 19(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(20 munud)

Gweld y Cwestiynau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd:

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y cynnydd sylweddol mewn prisiau nwy a'r cynnydd cydamserol mewn prisiau ynni ar ddefnyddwyr Cymru?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Amseroedd ymateb ambiwlansys

(60 munud)

**NDM7779** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod ychydig dros hanner y galwadau ambiwlans coch wedi cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o wyth munud ym mis Gorffennaf 2021.

2. Yn nodi ymhellach y pwysau aruthrol y mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru oddi tano gydag amseroedd trosglwyddo gofal cynyddol o hyd at 18 awr.

3. Yn cydnabod gwaith caled ac ymroddiad staff Gwasanaeth Ambiwlans Cymru mewn amgylchiadau mor heriol.

4. Yn cydnabod y pwysau mewn gofal cymdeithasol a sylfaenol a'r sgil-effeithiau ar y gwasanaeth ambiwlans.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datgan argyfwng yng Ngwasanaeth Ambiwlans Cymru.

b) cyflwyno cynllun cynhwysfawr i wella amseroedd ymateb ambiwlansys, gan gynnwys camau i:

i) sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol digonol;

ii) gwella mynediad i apwyntiadau gofal sylfaenol wyneb yn wyneb; a

iii) cynyddu capasiti gwelyau mewn ysbytai.

c) nodi cynllun ac amserlen glir ar gyfer codi cyflog gweithwyr gofal ledled Cymru.

d) ystyried defnyddio cefnogaeth Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi i helpu i gynyddu capasiti ymateb ambiwlansys.

e) ymdrechu'n galetach i recriwtio parafeddygon yn gyflym.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi, yng nghyd-destun lefelau digynsail o alw, fod ychydig dros hanner y galwadau ambiwlans coch wedi cyrraedd targed Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2021.

2. Yn nodi ymhellach y pwysau aruthrol ar yr holl wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru gan gynnwys Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r ystod o heriau cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar lif cleifion.

3. Yn cydnabod gwaith caled ac ymroddiad staff Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a holl staff gwasanaethau iechyd a gofal mewn amgylchiadau mor heriol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod y camau a nodir yng nghynllun cyflawni Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn cael eu cyflawni'n gyflym ac yn bwrpasol;

b) cefnogi ystod o fentrau i helpu i recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol a rhoi cymorth i gyflogwyr gofal cymdeithasol;

c) gwella mynediad i apwyntiadau gofal sylfaenol wyneb yn wyneb pan yn glinigol briodol;

d) gwireddu ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal;

e) parhau i gydweithio â Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi i helpu i gynyddu capasiti ymateb ambiwlansys; a

f) ymdrechu'n galetach i recriwtio clinigwyr ambiwlans yn gyflym.

*Os derbynnir gwelliant 1, fe fydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.*

**Gwelliant 2 - Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 5

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal yn wirioneddol ar lefel genedlaethol

Hyfforddi a recriwtio 6,000 o staff ychwanegol i'r GIG, gan gynnwys meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol eraill ym maes iechyd

## 7 Dadl Plaid Cymru - Wythnos waith pedwar diwrnod

(60 munud)

**NDM7780 Siân Gwenllian (Arfon)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y newid mewn arferion gwaith o ganlyniad i bandemig COVID-19 a bod llawer o fanteision lles a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wedi dod o ganlyniad i hyn.

2. Yn credu bod angen diwygio arferion gwaith i ymateb i heriau'r chwyldro awtomeiddio.

3. Yn nodi â diddordeb bod llywodraethau yn yr Alban, Sbaen ac Iwerddon yn bwriadu cynnal cynlluniau peilot ar lefel genedlaethol ar gyfer wythnos waith pedwar diwrnod.

4. Yn cydnabod bod cynlluniau peilot o wythnos waith pedwar diwrnod yng Ngwlad yr Iâ wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac wedi arwain at lawer o weithwyr yn symud i oriau byrrach heb ostyngiad mewn cyflog.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cynllun peilot wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru i archwilio'r manteision i holl weithwyr Cymru, yr economi a'r amgylchedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Darren Millar (Clwyd West)**

Dileu pwyntiau 3, 4 a 5.

*Os derbynnir gwelliant 1, fe fydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.*

**Gwelliant 2 – Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried y cynnydd a wneir drwy gynlluniau peilot mewn gwledydd eraill ac archwilio'r gwersi y gall Cymru eu dysgu.

**Gwelliant 3 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai cyflogwyr a gweithwyr gytuno ar drefniadau gwaith ac na ddylid gorfodi unrhyw weithwyr na chyflogwyr i fabwysiadu wythnos waith pedwar diwrnod.

**Gwelliant 4 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod materion cyflogaeth wedi'u cadw yn ôl i Senedd y DU.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7774** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Ni yw'r hyn yr ydym yn ei fwyta: canolbwyntio ar ddwysedd maetholion bwyd er mwyn gwella iechyd y cyhoedd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Medi 2021

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 15/09/2021 i'w hateb ar 22/09/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

1 OQ56885 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyn-filwyr yng Nghymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

2 OQ56872 **(w)**

Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod aelodaeth byrddau cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu cymdeithas?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

3 OQ56880 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau bancio i gyrff a mudiadau gwirfoddol yng Nghymru?

**Joel James** *Canol De Cymru*

4 OQ56845 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wrandawiadau cyn penodi ar gyfer penodiadau cyhoeddus?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

5 OQ56864 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda chomisiynwyr heddlu a throseddu, yr heddlu, ac asiantaethau cyfiawnder troseddol ynglŷn â hiliaeth yn y system cyfiawnder?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

6 OQ56888 **(e)**

Beth yw asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

7 OQ56876 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad Banc Cambria?
Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi.

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

8

OQ56851 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi creu cynlluniau pantri bwyd yng Nghwm Cynon?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

9

OQ56879 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yng Ngogledd Cymru?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

10

OQ56873 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cynhwysiant digidol yn Nyffryn Clwyd?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

11

OQ56884 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar y gwaith o gefnogi menywod sy'n ffoaduriaid o Afghanistan yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

12

OQ56866 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch effaith rheoliadau COVID-19 ar fynediad i addoldai?

## CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1

OQ56891 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog defnyddio technoleg mewn etholiadau yng Nghymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

2

OQ56856 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y confensiwn cyfansoddiadol arfaethedig?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

3

OQ56875 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith ynghylch canfyddiadau diweddar adroddiad yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd, Women's State Pension Age: Our Findings on the Department for Work and Pensions' Communication of Changes?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OQ56870 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch galw ceisiadau cynllunio i mewn yng Nghymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5 OQ56861 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am sut mae'r setliad datganoli presennol yn galluogi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo hawliau gweithwyr?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

6 OQ56877 **(e)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddatganoli cyfiawnder i Gymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

7 OQ56853 **(e)**

Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU ynghylch adfer cymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor cynnar ac ailasesu'r prawf moddion?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

8 OQ56887 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i sicrhau bod trefniadau cyfansoddiadol yn adlewyrchu strwythur gwleidyddol newydd y DU?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

9 OQ56846 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddatganoli plismona a chyfiawnder?

**Buffy Williams** *Rhondda*

10 OQ56849 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar y gofynion cyfreithiol o ran lleoli camerâu cyflymder yng Nghymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

11 OQ56857 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar sail gyfreithiol rheoliadau COVID-19?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

12 OQ56852 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch diwygio'r peirianwaith rhynglywodraethol ar lefel y DU?

## COMISIWN Y SENEDD

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

1 OQ56865 **(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am gynlluniau i alluogi pob Aelod i fynychu ystâd y Senedd i gymryd rhan ym musnes y Senedd?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

2 OQ56882 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Beth yw cynlluniau'r Comisiwn ar gyfer ailagor adeilad y Pierhead?

**Joel James** *Canol De Cymru*

3 OQ56847 **(e)**

Pa gynigion sydd gan Gomisiwn y Senedd i wneud ystâd y Senedd yn garbon niwtral?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ56844 **(e)**

Pa waith y mae'r Comisiwn yn ei wneud i sicrhau bod ystâd y Senedd yn ystyriol o bobl â dementia?